

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023

PRESENNOL: Cynghorydd Robert Ll Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Douglas M Fowle, A M Jones, Llio A Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Sonia Williams ac Arfon Wyn

Aelod Cyfetholedig : Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

Aelodau Portffolio

Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd);
Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid);
Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg);
Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer);
Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuentid a Thai);
Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol);
Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cyllid, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd);
Cynghorydd Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol).

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid),
Pennaeth Democratiaeth,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Gwasanaethau Cymdeithasol) (SA),
Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM),
Rheolwr Sgrwtini (AGD),
Swyddog Pwyllgorau (MEH).

HEFYD YN BRESENNOL: Cynghorydd Pip O'Neill (Aelod o'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio) (mewn perthynas ag Eitem 3).

YMDDIHEURIADA Cyngorydd Jackie Lewis;
U: Cyngorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio Prifffyrdd,
Gwastraff ac Eiddo);
Dirprwy Brif Weithredwr;
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol;
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorydd Sonia Williams, sydd newydd gael ei hethol, i'r cyfarfod.

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim wedi'u derbyn.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol canlynol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chadarnhawyd eu bod yn gywir:-

- 28 Chwefror, 2023
- 14 Mawrth, 2023

3 STRATEGAETH RHiantu CORFFORAETHOL 2023-28

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cynnwys y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol ar gyfer 2023-2028 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Wrth gyflwyno'r adroddiad dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai bod rôl yr Aelodau Etholedig fel rhiant corfforaethol ymysg y pwysicaf. Nododd bod rhiantu corfforaethol yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu ar draws y Cyngor i sicrhau bod plant phobl ifanc sydd dan ofal y Cyngor neu sydd ar fin gadael gofal yn cael eu cefnogi i ffynnu. Dylai rhiant corfforaethol da feddu ar y un dyheadau ar gyfer plentyn/unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal ag y byddai rhiant ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sefydlogrwydd a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ddatblygu; a'u helpu nhw i osod targedau uchelgeisiol eu hunain. Mae hefyd yn golygu eu cefnogi nhw i feithrin y sgiliau a'r hyder i fyw'n annibynnol, a'u hatgoffa fod rhywun ar gael bob amser pan fydd pethau'n mynd o chwith. Aeth ymlaen i ddweud mai dyma'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol gyntaf wedi i'r gwasanaeth archwilio mewnol nodi bod angen strategaeth o'r fath a dywedodd y bydd yn weithredol am y pum mlynedd nesaf.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro bod 'Voices from Care Cymru', a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor ar y pryd, wedi cwblhau darn o waith fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol. Nododd bod hyn wedi rhoi cyfle i bobl ifanc sy'n derbyn gofal gyfrannu at y Strategaeth. Aeth ymlaen i ddweud bod 'gweithdy' wedi cael ei gynnal ym mis Chwefror er mwyn i Aelodau Etholedig a Swyddogion perthnasol allu cyfrannu i'r Strategaeth.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro bod y Strategaeth y nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer y plant a phobl ifanc sydd dan ei ofal neu sydd ar fin gadael gofal.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol:-

- Holwyd sut mae'r Strategaeth Plant sy'n Derbyng Gofal ac Ymadawyr Gofal yn cysylltu â Chynllun y Cyngor: 2023/2028? Cynghorwyd y Pwyllgor bod y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol wedi cael ei chynhyrchu yn unol â'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor yn enwedig rheiny'n ymwneud â sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn iach ac yn gallu ffynnu.
- Holwyd beth yw goblygiadau rhoi'r Strategaeth arfaethedig ar waith o safbwynt adnoddau a pha mor fforddiadwy yw hyn yn yr hinsawdd bresennol? Cynghorwyd y Pwyllgor bod 150 o blant a phobl ifanc dan ofal yr Awdurdod ar hyn o bryd a bod 70 ar fin gadael gofal. Fodd bynnag, byddai cynnydd sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system gofal yn effeithio ar lefelau staffio'r gwasanaeth. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn sefydlog ar hyn o bryd a bod hyn wedi'i adlewyrchu mewn adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai bod y Strategaeth yn rhoi mwy o sicrwydd y bydd y plant a'r bobl ifanc sydd dan ein gofal yn derbyn yr un cyfleodd â phlant a phobl ifanc eraill er mwyn eu galluogi i ffynnu.
- Holwyd pa risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod a pha fesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig i leihau'r effaith ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal? Cynghorwyd y Pwyllgor y byddai cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn effeithio ar adnoddau'r gwasanaeth. Mae'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn arf sy'n nodi dyheadau'r gwasanaeth er mwyn gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal.
- Holwyd pa effaith fydd y strategaeth hon yn ei chael ar bobl Ynys Môn? Cynghorwyd y Pwyllgor y byddai'n cael effaith gyfyngedig ar bobl Ynys Môn gan ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro y bydd gwella'r canlyniadau i bobl yn arwain at fwy o gyswilt â chymunedau ac economi'r Ynys.
- Cyfeiriwyd at yr anawsterau o ran recriwtio a chadw staff o fewn y sector gofal. Holwyd sut y bydd yr heriau o ran recriwtio a chadw staff yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i wireddu'r Strategaeth yn llawn. Cynghorwyd y Pwyllgor bod recriwtio a chadw staff o fewn y sector gofal yn her i awdurdodau lleol yn genedlaethol o ran darparu gwasanaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion. Trwy ddatblygu, hyfforddi a buddsoddi mewn staff o fewn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol gwelwyd cynnydd yn nifer y Gweithwyr Cymdeithasol Cymwysedig. Fodd bynnag, mae staffio yn y sector gofal yn fwy o her ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r mater er mwyn gwneud gyrfa ym maes gofal yn fwy deniadol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector gofal trwy ymweld ag ysgolion a chymryd

rhan mewn cyflwyniadau fideo i annog pobl ifanc i ystyried cyfleodd gyrfa o fewn y sector gofal.

- Holwyd ynglŷn â pherfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Cynghorwyd y Pwyllgor bod plant sy'n derbyn gofal, yn hanesyddol, yn dueddol o beidio â pherfformio cystal â'u cyfoedion. Mae'r Awdurdod yn ceisio newid y duedd honno. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o gynllun peilot ynghyd â chwe awdurdod arall, sy'n cynnig 'ysgol rithwir' i wella cyrhaeddiad a chyfranogiad addysgol ymysg plant sy'n derbyn gofal ac mae'r cynllun hwn yn cael effaith gadarnhaol. Yn ddiweddar penodwyd Swyddog Cymorth i gefnogi'r bobl ifanc hyn gyrraedd eu llawn botensial. Mae hefyd yn bwysig mesur cynnydd unigol plant a phobl ifanc a oedd heb fynediad 'digon da' at gyfleodd addysgol yn y gorffennol.
- Cyfeiriwyd at yr 11 blaenoriaeth yn y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol, sydd hefyd wedi'i nodi yn yr adroddiad, y dylai Rhieni Corfforaethol fod yn ymwybodol ohonynt fel rhieni cyfrifol. Holwyd sut y gellid cyflawni'r rhain yn enwedig blaenoriaeth 2 a 3. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y Panel Rhiantu Corfforaethol yn cynnwys Aelodau Etholedig, Swyddogion a Swyddogion o sefydliadau partner. Nodwyd ei bod hi'n hanfodol bod y Panel yn ymwybodol o anghenion y plant a'r bobl ifanc sydd dan ofal yr awdurdod lleol a'u bod deall y problemau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn cwrdd pob chwarter ac maent wedi derbyn adroddiadau yn ymwneud â chyrhaeddiad addysgol, y gwasanaeth maethu ac adroddiadau gan swyddogion adolygu annibynnol er mwyn craffu arnynt. Mae modd i aelodau'r Panel ofyn am adroddiad ar unrhyw thema y maent yn ei ystyried yn berthnasol.
- Holwyd ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n gafael gofal? Cynghorwyd y Pwyllgor bod Deddf Gadael Gofal 2000 yn nodi pa mor fregus ydi'r rhai sy'n gadael gofal ar ôl 18 oed ac mae'n amlinellu'r cyfrifoldebau'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yma'n cael eu cefnogi i fod yn bobl ifanc annibynnol. Mae cymorth ar gael hyd nes bob y bobl ifanc hyn yn 25 oed, fodd bynnag, mae modd darparu cymorth pellach wedi hyn drwy'r Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Oedolion yn achos rhai pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn pontio i fyd oedolion yn ddidrafferth.
- Holwyd sut y byddwn yn monitro effeithiolrwydd y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol? Cynghorwyd y Pwyllgor y bydd y Panel Rhiantu Corfforaethol yn monitro effeithiolrwydd y Strategaeth.
- Cyfeiriwyd at y cynllun peilot Incwm Sylfaenol yng Nghymru. Holwyd a fyddai gan y bobl ifanc sy'n gadael gofal yr hawl i'r Incwm Sylfaenol. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y cynllun peilot wedi gweithio'n dda ar Ynys Môn a bod y bobl ifanc wedi talu am gyrsiau addysgol a llety. Fodd bynnag, bydd y cynllun yn dod i ben ym mis Mehefin 2023 a disgwylir i drafodaethau cenedlaethol gael eu cynnal er mwyn gwerthuso llwyddiant y cynllun.

PENDERFYNWYD:-

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â chynnwys Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-2028,**
- **Argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-2028.**

4 MEYSYDD GWELLIANT HUNAN-ASESIAD 2022

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid) a oedd yn cynnwys meysydd gwelliant hunanasesiad 2022 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer mai dyma'r adroddiad cyntaf o'i fath, a'i fod yn cydnabod y gwelliannau yn erbyn meysydd gwelliant hunan-asesiad 2022. Mae'n rhoi diweddariad ar y camau gwella perthnasol a gytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor Sir ym mis Hydref 2022. Nododd bod 2022 wedi bod yn flwyddyn heriol oherwydd fod gan y Cyngor weinyddiaeth newydd, tîm arweinyddol newydd a Chynllun Strategol Newydd ar gyfer 2023-28. Serch yr holl newidiadau a datblygiadau dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n gyson, yn cwblhau disgwyliadau yn erbyn y mwyafrif o feysydd gwelliant Hunan-asesiad 2022 ac yn dygymod â disgwyliadau'r ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nododd bod y dangosyddion o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol hefyd yn perfformio'n dda. Mae cydymffurfiaeth staff â pholisïau'r Awdurdod wedi gwella yn ogystal â chydymffurfiaeth staff â'r hyfforddiant e-ddysgu a gwerthusiadau blynyddol. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi derbyn canlyniadau'r adolygiadau gwasanaeth a gwelliannau disgwylidig. Mae prif gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn hybrid erbyn hyn ac maent yn cae eu gwe-ddarlledu ar wefan y Cyngor. Dywedodd yr Aelod Portffolio y bydd y ffrydiau gwaith a nodwyd yn 1.4 yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ac y dylid eu cynnwys yn yr Hunan-Asesiad Corfforaethol ar gyfer 2023.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol:-

- Holwyd ynglŷn â rôl yr hunan-asesiad yn ein trefniadau llywodraethiant corfforaethol? Cynghorwyd y Pwyllgor bod yr Hunan-Asesiad yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n nodi y dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu perfformiad yn effeithiol. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod adroddiad Hunan-Asesiad blynyddol yn cael ei greu i fynd i'r afael â'r meysydd gwelliant. Nodwyd bod gwaith wedi'i gyflawni dros y deuddeg mis diwethaf i ddatblygu'r Hunan-Asesiad a bod y ddogfen wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 30 Medi 2022 cyn gwahodd sylwadau pellach gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Hydref, 2022 cyn i'r fersiwn terfynol gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022.
- Holwyd sut y bydd angen i'r Cyngor ddiwygio'r Sgorfwrdd Monitro Perfformiad Chwarterol i sicrhau aliniad gyda'r Hunanasesiad? Cynghorwyd y Pwyllgor ei bod hi'n bwysig bod y Cerdyn Sgorio'n dal i gael ei ddatblygu a bod cynllun ar waith i adolygu'r Cerdyn Sgorio. Bydd cyfle i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Aelodau

Etholedig gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp a bydd a hefyd yn ystod y Sesiynau Briffio i Aelodau Etholedig. Nodwyd y bydd rhaid nodi'r gofynion o ran hunanasesu a'i bod hi'n bwysig cydnabod y bydd y Cerdyn Sgorio'n cynnwys sut fydd y Cyngor yn cyflawni ei oblygiadau o dan y Ddeddf.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr hunanasesiad yn cyfeirio at nifer o feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Gofynnwyd sut y bydd y ffrydiau hyn yn cael eu blaenoriaethu? Cynghorwyd y Pwyllgor bod y ffrydiau perfformiad yn cael eu monitor pob chwarter drwy'r Byrddau Rhaglen, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith. Nodwyd bod gan y Pwyllgor hwn hefyd rôl craffu o ran mesur perfformiad o fewn y ffrydiau gwaith a nodwyd yn barhaus.

PENDERFYNWYD bod y ffrydiau gwaith yn 1.4.1 - 1.4.8 yn yr adroddiad yn dal i fod yn ddilys ac y dylid eu cynnwys yn yr Hunanasesiad Corfforaethol ar gyfer 2023.

5 ENWEBIAD I'R PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgrwtini i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Adroddodd y Rheolwr Sgrwtini bod un swydd wag ar y Panel Sgrwtini Corfforaethol/Panel Rhiantu Corfforaethol o ganlyniad i benodiad diweddar y Cynghorydd Neville Evans i'r Pwyllgor Gwaith.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sonia Williams i wasanaethu ar y Panel Sgrwtini Corfforaethol/Panel Rhiantu Corfforaethol.

**CYNGHORYDD ROBERT LLEWELYN JONES
CADEIRYDD**